# Roced Ddŵr

**BYDDI DI ANGEN:**

Potel blastig 2 litr
Pêl tenis
Siswrn
Corcyn
Tâp selo
Pwmp beic a nodwydd
Cerdyn 'foam'
Jwg o ddŵr





1. Torra 4 darn triongl yr un maint o'r cerdyn foam.



2. Tro'r botel ben i waered a sticia'r trionglau gyda thâp selo.



3. Rho'r bêl tennis ar dop y botel a'i gadw yn ei le gyda'r tâp.



4. Nesa, rho 800ml o ddŵr yn y botel.



5. Rho'r corcyn drwy nodwydd pwmp beic ac yna ei roi yn y botel.



6. Tro'r botel ben i waered. Nawr mae'r gwaith caled yn dechrau. Pwmpia'r pwmp tan fod y roced yn tanio.